

Ceredigion 12

Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018- 2033

Arolwg Tir Cyflogi Ceredigion

Data arolwg 2017, gyda sylwebaeth a dadansoddiad a gwblhawyd ym mis Ebrill 2019

Cyngor Sir Ceredigion

Mae Arolwg Tir Cyflogi 2017 yn darparu data o adolygiad pen bwrdd ac mewn safleoedd o'r holl safleoedd cyflogi wedi'u neilltuo ac heb eu neilltuo ledled y sir sy'n uwch na'r trothwy o 0.5ha.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Cyflwyniad	2
3. Methodoleg	4
4. Canlyniadau Ledled y Sir	9
5. Ffactorau ansoddol sy'n effeithio ar yr holl dir cyflogi ledled y sir a arolygwyd	19
6. Canlyniadau ar Sail Ardal	27
7. Aberystwyth	29
8. Aberteifi	31
9. Llanbedr Pont Steffan	33
10. Tregaron	35
11. Llandysul	37
12. Aberaeron	39
13. Canolfannau Gwasanaeth Gwledig	41
14. Aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill yn Sir Ceredigion	43
15. Rhestr o'r holl safleoedd a arfarnwyd yn yr Adolygiad Tir Cyflogi	46
16. Atodiad: Safleoedd Posibl	52
17. Atodiad 1 Mapiau Ledled y Sir	57
18. Atodiad 2 amserlen yr arolwg safleoedd a'r ddalen nodiadau	59
19. Atodiad 3 Mapiau penodol i aneddiadau	75

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1.1 Yr adroddiad hwn yw'r arolwg graddfa gyfan cyntaf o dir cyflogi y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi'i gynnal. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r canllawiau a'r arferion gorau sydd wedi'u cyhoeddi'n genedlaethol a datblygwyd methodoleg asesu safle. Diben yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod yr Adolygiad Tir Cyflogi yn cydymffurfio â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.
- 1.1.2 Bydd ei ganfyddiadau yn llunio llinell sylfaen data Ceredigion ar gyfer dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o anghenion economaidd a'r gofynion am dir cyflogi y bwriedir ei gynnal yn rhan o'r astudiaeth anghenion economaidd rhanbarthol 'Mwy Na Lleol' gyda Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.
- 1.1.3 Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth o'r safleoedd a nodwyd ac a arolygwyd yn 2016 yn adlewyrchu disgwyliadau'r CDLI1 o ran twf economaidd ac mae'n awgrymu bod y ddarpariaeth o ran faint o dir heb ei ddatblygu sydd ar gael a'r dystiolaeth o drosi safleoedd presennol, yn ddigonol i ymdopi â'r pwysau datblygu tebygol. Ledled y sir, mae'r arolwg yn nodi cyfanswm o 283.76 ha o dir cyflogi fesul dosbarth defnydd ac ardal, yn cynnwys 221.39 ha o gyflenwad cyflogi presennol (wedi'i ddatblygu), a 62.37 ha arall o dir heb ei ddatblygu sydd wedi ei ymrwymo ar gyfer defnyddiau cyflogi un ai drwy ei neilltuo neu ganiatâd cynllunio. Mae'r arolwg yn canfod bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogi o ansawdd da o ran amgylchedd, hygyrchedd (mewn cyd-destun gwledig) ac absenoldeb cyfyngiadau safleoedd mewnol ac allanol.
- 1.1.4 Gallai fod angen ystyried yn fwy manwl pa un a ddylid nodi tir ychwanegol posibl i adlewyrchu pwyslais ar asedau Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer datblygiad economaidd Ceredigion yn y dyfodol. Mae atodiad yn disgrifio'r sefyllfa yn hynny o beth, ac yn crynhoi lleoliadau eraill neu leoliadau diwygiedig y mae angen eu cydnabod yn ffurfiol wrth ystyried neilltuo tir wrth baratoi ar gyfer y CDLI2 ar Adnau.

2. Cyflwyniad

- 2.1.1 Yr adroddiad hwn yw'r arolwg graddfa gyfan cyntaf o dir cyflogi y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi'i gynnal. Yn y blynyddoedd blaenorol mae arolygon wedi bod yn gyfyngedig i'r rhai hynny a gynhaliwyd ar safleoedd sydd wedi'u neilltuo yn y Cynllun Datblygu Unedol a'r CDLI.
- 2.1.2 Ar gyfer arolwg 2016, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r canllawiau a'r arferion gorau sydd wedi'u cyhoeddi'n genedlaethol a datblygwyd methodoleg asesu safle. Diben yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod yr Adolygiad Tir Cyflogi yn cydymffurfio â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Yn benodol, roedd yn adlewyrchiad o ofynion:
- Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 8 Tachwedd 2016
 - Nodyn Cyngor Technegol 23 ar Ddatblygiad Economaidd (2014); a
 - Canllawiau Arfer ar Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd er mwyn cefnogi cynllun lleol (2015)
- 2.1.3 At ddibenion yr adroddiad hwn ystyrir bod defnyddiau tir cyflogi yn cynnwys y rhai hynny yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2, B8, A2 (swyddfa) a defnyddiau Unigryw sy'n perthyn yn agos i ddefnyddiau dosbarth B. Trafodir dosbarthiadau defnydd eraill hefyd pan fyddant yn codi ar safleoedd cyflogi a nodwyd.
- 2.1.4 Daw data'r arolwg o'r flwyddyn 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017. I gydnabod cyfradd araf y newid yn y defnydd o dir cyflogi yng Ngheredigion, penderfynwyd y byddai'n briodol i ddiweddarau'r data sylfaenol gyda gwybodaeth ar geisiadau cynllunio perthnasol a gymeradwyir bob 4 blynedd ond byddai arolygon safleoedd yn cael eu cynnal dim ond pan fyddai angen.
- 2.1.5 Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli dadansoddiad cyntaf y data sylfaenol o arolwg 2016/17. Ers y data sylfaenol, mae argraffiad newydd o Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) wedi'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018, ond nid yw hwn wedi cael effaith o bwys ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer

yr arolwg, sydd wedi'i seilio'n bennaf ar Ganllawiau Ymarfer 2015 fel y'i dyfynnir uchod.

- 2.1.6 Bydd yr adroddiad yn archwilio maint ac ansawdd tir cyflogi wedi'i neilltuo a heb ei neilltuo a'i ddsbarthiad drwy'r sir, o ran y stoc cyflogi presennol (wedi'i ddatblygu) a safleoedd sydd wedi'u hymrwymo (wedi'u neilltuo neu â chaniatâd cynllunio).
- 2.1.7 O ran safleoedd posibl, sydd hefyd i'w hystyried mewn dadansoddiad cynhwysfawr, nid yw'r rhain yn rhan o'r data sylfaen ond maent yn rai a nodwyd yn bennaf ar gyfer dyheadau datblygu economaidd yn y strategaeth newydd sy'n datblygu ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru ac o adolygiad pen bwrdd a chyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol i'r Strategaeth a Ffeirir ar gyfer disodli'r CDLI. Mae'n bosibl y bydd elfennau ychwanegol i'w hystyried yn codi o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sydd i'w gyhoeddi yn ystod haf 2019. Yn hynny o beth, ymdrinnir â safleoedd posibl ar wahân yn yr adroddiad i'r graddau y mae gwybodaeth ar gael hyd yn hyn ac fe fyddant yn cael sylw mewn atodiad yn cynnwys naratif a'r data sydd ar gael.

3. Methodoleg

3.1.1 Mae Arolwg Tir Cyflog 2016 - 2017 yn cwmpasu:

- Holl safleoedd a neilltuwyd ar gyfer Defnydd Cyflogi a Chymysg yn CDLI Cyngor Sir Ceredigion
- Hap-safleoedd cyflogi o fwy na 0.5 ha yn y Sir
- Safleoedd cyflogi posibl o fwy na 0.5 ha yn y sir

3.1.2 Rhestrir yr holl safleoedd cyflogi a neilltuwyd yn y CDLI Cyfrol 1 Atodiad 6.

3.1.3 Er mwyn llunio rhestr o'r holl hap-safleoedd sydd wedi'u hymrwymo yn y sir defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau, sef y gronfa ddata gynllunio, a holwyd o ran ceisiadau am dermau chwilio ac ymestyniadau iddynt sy'n berthnasol i ddefnyddiau B a lle swyddfa. Holwyd yr arolwg blynyddol ar fanwerthu a chyflogaeth Ymchwil a gwybodaeth a Pholisi Cynllunio ar gyfer cofnodion o safleoedd heb eu neilltuo. Casglwyd gweithgor o swyddogion i ystyried aneddiadau amrywiol a datblygu rhestr o safleoedd posibl. Roedd y gweithgor hwn yn cynnwys y swyddog Mwynau a Gwastraff a ddarparodd restr o'r safleoedd perthnasol ac eithrio chwareli na chafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad. Darparodd y tîm Diogelu'r Amgylchedd restr o'r safleoedd posibl hefyd.

3.1.4 Cofnodwyd pob safle a gyflwynwyd mewn cronfa ddata ac yna ei ystyried, ei fesur a'i asesu er mwyn llunio cyfres o 63 o Safleoedd Cyflogi dros 0.5ha. Cylchredwyd y safleoedd hyn yn fewnol wedyn yng Nghyngor Sir Ceredigion ac ymgynghorwyd arnynt gyda'r Grŵp Gweithredol Dyfodol Cynaliadwy o'r Corff Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cael sylwadau.

3.1.5 Mae'r gronfa ddata yn cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob un o'r 62 o safleoedd:

Enw'r maes	Math o ddata
Rhif Adnabod Safle Newydd	cyfanrif
Rhif Adnabod Safle Cyflogi	cyfanrif
Enw'r safle	testun
Grŵp Anheddiad CDLI	testun
Safle a Neilltuwyd CDLI 2007 2022	Gwir/anwir
Cyfeirnod Safle a Neilltuwyd 2007 2022	alffaniwmerig
Categori Safle a Neilltuwyd	testun
Dosbarth Defnydd	testun
Ha y Safle	Cyfanrif (2 le degol)
Ha adeiledig presennol	Cyfanrif (2 le degol)
Ha heb eu datblygu	Cyfanrif (2 le degol)
Dwyreiniaid Gogleddiaid	alffaniwmerig
Aml ddefnydd ar y safle	Gwir/anwir
Disgrifiad o'r gweithrediadau	testun
Defnyddiau eraill posibl	Gwir/anwir
S02- S04 cyfaddasrwydd y polisi	Testun / Rhestr
Angen arolwg safle	Gwir/anwir
Arolwg safle wedi'i gwblhau	Gwir/anwir


3.1.6 Mae e-ffeil arall a grëwyd ar gyfer pob safle yn cynnwys ffotograffiaeth o'r awyr a ffotograffau ar y safle pan fo'n berthnasol. Ar ôl eu cofnodi yn y

gronfa ddata cynhaliwyd arfarniad pen bwrdd ar gyfer yr holl safleoedd yn unol â'r protocol canlynol:

Rhif a lliw	Maint y Safle	Cam gweithredu	Cyfansymiau
1	o dan 0.5ha	diystyrwyd o'r astudiaeth	0
2	0.5ha i 3ha mewn maint	Ymarfer pen bwrdd i sefydlu pa un a oes mwy nag un busnes yn bresennol ar y safle ac os felly cynhelir arolwg, fel arall, ceir ei gyfrif yn y cyflenwad tir a chaiff arfarniad pen bwrdd a ffeil eu creu, ond ni chynhelir ymarfer o ddichonoldeb ac apêl i'r farchnad ac ati gan ei bod yn debygol y byddai busnesau unigol pe byddent yn cau neu'n cael eu gwerthu yn gweithredu dim ond fel yr uned honno	35
4	3ha+	Arolygwyd y safle yn llawn	6
5	Safle a Neilltuwyd	Arolygwyd y safle yn llawn	21
Cyfanswm			63

3.1.7 O ganlyniad i hidlo'r safleoedd drwy'r protocol arfarniad pen bwrdd trefnwyd i gyfanswm o 46 o safleoedd gael arolwg safle llawn. Roedd yr arolwg safle yn cynnwys ymweliad â'r safle ac asesiad o nodweddion meintiol ac ansoddol y safle yn unol ag amserlenni arolwg y safle, gweler Atodiad 1 am enghreifftiau.

Trosolwg o'r canlyniadau a'r Dadansoddiad Cymharol



Safleoedd Adolygu Tir Cyflogi

Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
Ffôn/Tel.: 01545 570881



Ceredigion - Employment Land Review


Employment Land Review Sites by Area (ha)



Graddfa/Scale: Argraffwyd ar/Printed on: 22/08/2017

© Blackwell & Gower a rhwyddwr cyffwrdd 2017 Arwyddwr Cyffwrdd, 10000410
© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey, 10004410

C A R D I G A N B A Y /
A E C E R E D I G I O N



4. Canlyniadau Ledled y Sir

Adolygiad meintiol o'r tir cyflogi ledled y sir

4.1 Tir fesul Dosbarth Defnydd

4.1.1 Ledled y sir, ceir 221.39ha o gyflenwad tir cyflogi presennol (wedi'i ddatblygu), a cheir 62.37 ha arall o dir heb ei ddatblygu sydd wedi ei ymrwymo ar gyfer defnyddiau cyflogi naill ai drwy ei neilltuo neu drwy ganiatâd cynllunio. Ymdrinnir â thir ychwanegol posibl yn atodiad yr adroddiad ar dudalen 52. Mae'r tir sydd ar gael yn rhannu fesul dosbarth defnydd i'r canlynol - lle ceir mwy nag un defnydd ar safleoedd mae'r rhai hynny wedi'u categorioeddio felly (wedi'u categorioeddio'n hanesyddol yn y modd hwn):

Tabl 001: Ha o Dir Cyflogi Ledled y Sir fesul Dosbarth Defnydd yng Ngheredigion

Dosbarth Defnydd	Ha Adeiledig Presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfanswm Ha y Safle
A, B2, B8	0.99	0	0.99
B1	35.97	4.79	40.76
B1, B2	16.21	0	16.21
B1, B2, B8	51.73	35.68	87.41
B1, B2, B8, Unigryw	9.31	0	9.3
B1, B8	6.22	1.6	7.82
B1, Unigryw	3.24	0	3.24
B2	21.96	3.67	25.63
B1, B8	4.22	0	4.22
B2, B8, Unigryw	5.07	3.32	8.39
B8	10.93	0	10.93

D	4.62	2.52	7.14
Unigryw	50.93	10.79	61.72
CYFANSYMIAU	221.39	62.37	283.76

4.1.2 Mae safleoedd a neilltuwyd yn cyfrif am yr hectarau canlynol o dir cyflogi ledled y sir:

4.1.3 Mae safleoedd heb eu neilltuo yn cyfrif am yr hectarau canlynol o dir cyflogi ledled y sir:

Tabl 002a: Ha o Dir Cyflogi a Neilltuwyd Ledled y Sir fesul Dosbarth Defnydd yng Ngheredigion

Dosbarth Defnydd	Ha Adeiledig Presennol	Ha heb eu datblygu	Ha y Safle
B1	19.44	4.79	24.23
B1, B2	16.21	0	16.21
B1, B2, B8	48.32	35.68	84
B1, B2, B8, Unigryw	9.31	0	9.31
B1, B8	4.83	1.6	6.43
B1, Unigryw	1.07	0	1.07
B2	0	3.67	3.67
B1, B8	2.34	0	2.34
B2, B8, Unigryw	5.07	3.32	8.39
B8	1.23	0	1.23
Unigryw	45.22	7.79	53.01
CYFANSYMIAU	153.04	56.85	209.89

Tabl 002b: Ha o Dir Cyflogi heb ei Neilltuo Ledled y Sir fesul Dosbarth Defnydd yng Ngheredigion

Dosbarth Defnydd	Ha Adeiledig Presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfanswm Ha y Safle
A, B2, B8	0.99	0	0.99
B1	16.53	0	16.53
B1, B2, B8	3.41	0	3.41
B1, B8	1.39	0	1.39
B1, Unigryw	2.17	0	2.17
B2	21.96	0	21.96
B1, B8	1.88	0	1.88
B8	9.7	0	9.7
D	4.62	2.52	7.14
Unigryw	5.7	3	8.71
CYFANSYMIAU	68.35	5.52	73.88

4.1.4 Yr hyn y mae'r tablau hyn yn ei ddangos yw os byddwn yn cyfuno'r prif ddefnydd ar y safle a chanolbwyntio yn arbennig ar ddefnyddiau B1, B2, B8 ac Unigryw mae gennym y meintiau canlynol o dir cyflogi:

4.1.5 Ledled y sir:

Tabl 002c: Ha o Dir Cyflogi Ledled y Sir fesul Prif Ddosbarth Defnydd yng Ngheredigion

	Prif Ddefnydd y Safle	Ha Adeiledig Presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfansymiau
Safleoedd a Neilltuwyd	B1	99.18	42.07	141.25
	B2	7.41	6.99	14.4
	B8	1.23	0	1.23
	Unigryw	45.22	7.79	53.01
Safleoedd heb eu Neilltuo	B1	23.5	0	0
	B2	23.84	0	0
	B8	9.7	0	0
	Unigryw	5.7	3	8.71
Cyfansymiau	B1	122.68	42.07	141.25
	B2	31.25	6.99	14.4
	B8	9.7	0	1.23
	Unigryw	50.92	10.79	61.72
Ha sydd wedi eu hymrwymo ac 'wedi eu hymrwymo ond heb eu datblygu' ar gyfer defnyddiau diwydiannol B1, B2, B8 ac Unigryw:				218.6

4.2 Unedau fesul Dosbarth Defnydd

4.2.1 Nid oes data m2 o arwynebedd llawr fesul dosbarth defnydd ar gael yn gyson yn setiau data Ceredigion, ac nid oes unrhyw gymarebau cyfartalog o m2 o arwynebedd llawr i arwynebedd y safle fesul dosbarth defnydd. Pan fo unedau wedi'u dosbarthu mewn dosbarth defnydd penodol (ac i nifer fach o'n safleoedd yn unig y mae hyn yn wir, gan mai safleoedd a neilltuwyd mewn aneddiadau allweddol yn unig a gaiff eu harolygu'n rheolaidd) mae'r canlyniadau canlynol yn berthnasol.

Tabl 003 Unedau cyflogi sydd mewn defnydd ac sy'n wag fesul dosbarth defnydd ledled y sir (Ha y safle) (2017)			
Dosbarth Defnydd		Ha y safle	
	Mewn defnydd	Gwag	Cyfanswm
A1	4.38	0.28	4.66
A1/B2	0.05	0.00	0.05
A2	1.67	0.00	1.67
A3	0.04	0.00	0.04
B1	4.63	0.47	5.10
B2	10.08	0.28	10.36
B8	3.97	0.06	4.03
C1	0.11	0.00	0.11
D1	0.05	0.00	0.05
D2	0.23	0.00	0.23
Unigryw	1.37	0.00	1.37
Cyfanswm	26.59	1.08	27.68

4.2.2 Ar safleoedd a neilltuwyd y cyfansymiau yw:

Tabl 004 Unedau cyflogi sydd mewn defnydd ac sy'n wag fesul dosbarth defnydd (Safleoedd a neilltuwyd) (Ha y safle) (2017)

Dosbarth Defnydd	Ha y safle		
	Mewn defnydd	Gwag	Cyfanswm
A1	1.80	0.28	2.08
A1/B2	0.05	0.00	0.05
A2	0.12	0.00	0.12
A3	0.01	0.00	0.01
B1	3.47	0.47	3.93
B2	10.04	0.28	10.32
B8	3.59	0.06	3.65
C1	0.00	0.00	0.00
D1	0.03	0.00	0.03
D2	0.17	0.00	0.17
Unigryw	1.12	0.00	1.12
Cyfanswm	20.39	1.08	21.47

4.2.3 Mae dosbarthiad y defnyddiau ar safleoedd a neilltuwyd yn digwydd dros 241 o safleoedd unedau cyflogi, sef 87% o'r safleoedd a gafodd eu monitro. Mae tabl 004 yn nodi mai 5% yn unig, fesul arwynebedd unedau ar safleoedd a neilltuwyd a gafodd eu monitro, oedd yn wag yn 2017.

4.2.4 Ar safleoedd heb eu neilltuo:

Tabl 005 Unedau cyflogi sydd mewn defnydd ac sy'n wag fesul dosbarth defnydd (Safleoedd heb eu neilltuo) (Ha y safle) (2017)

Dosbarth Defnydd	Ha y safle		
	Mewn defnydd	Gwag	Cyfanswm
A1	2.58	0.00	2.58
A1/B2	0.00	0.00	0.00
A2	1.55	0.00	1.55
A3	0.03	0.00	0.03
B1	1.17	0.00	1.17
B2	0.04	0.00	0.04
B8	0.38	0.00	0.38
C1	0.11	0.00	0.11
D1	0.03	0.00	0.03
D2	0.06	0.00	0.06
Unigryw	0.26	0.00	0.26
Cyfanswm	6.21	0.00	6.21

4.2.5 Mae dosbarthiad y defnyddiau ar safleoedd heb eu neilltuo yn digwydd dros 35 o safleoedd, sef 13% o'r safleoedd a gafodd eu monitro. Mae safleoedd cyflogi heb eu neilltuo, yn gyffredinol, oherwydd eu natur, yn gwasanaethu cwmni penodol ac yn dangos cyfradd 'gwag' o ddim.

4.2.6 Pan fo dosbarth defnydd unedau wedi'i nodi mae'n amlwg bod y defnyddiau hyn yn bennaf yn y meysydd defnydd tir cyflogi allweddol, sef B1, B2 a B8. Ceir canran uchel o ddosbarthiadau defnydd A1 ond mae hyn oherwydd bod rhai parciau manwerthu mawr wedi'u nodi yn yr astudiaeth yn sgil eu cyfleusterau warysau. Nid yw'r rhain yn dir cyflogi traddodiadol, ac felly esbonnir hyn yn atodiadau'r safleoedd. Mae'n ymddangos bod gan y sir

ddefnydd diwydiannol Cyffredinol B2 sylweddol ond gallai hyn fod oherwydd dau ffactor:

1. Dosbarthu tir cyflogi yn wael yn ystod yr arolwg a
2. Natur gyffredinol busnesau diwydiannol ar barciau cyflogi Ceredigion.

4.2.7 Un 'parc gwyddoniaeth' yn unig sydd gan y sir a fwriedir ar gyfer defnyddwyr B1, ond mae rhai o'r rhain mewn defnydd A2 a D1 mewn ymgais i lenwi unedau gwag.

4.2.8 Roedd 46 o unedau gwag yn 2017, ac roedd 41 yn wag yn 2016, 32 yn wag yn 2015, 21 yn wag yn 2014, 28 yn wag yn 2013 a 26 yn wag yn 2011 (ni chynhaliwyd arolwg yn 2012). Byddai hyn yn awgrymu lleihad cymharol o ran pwysau'r farchnad ar unedau cyflogi rhwng 2011 a 2017.

4.3 Mwy nag un defnydd/defnyddiwr ar y safle

4.3.1 Ystyriodd yr arolwg hefyd pa un a oedd un diwydiant penodol yn fwy amlwg na'r gweddill yn y safleoedd neu a oeddynt yn gweithredu ar fwy nag un math o ddiwydiant. Fel y mae'r canlyniadau isod yn dangos ceir rhaniad 60:40 tuag at fwy nag un math o ddiwydiant.

4.3.2 Cyfanswm yr hectarau o dir sydd â mwy nag un defnydd/defnyddiwr o'i gymharu ag un yn unig ar safleoedd ledled y sir:

4.3.3 Mwy nag un defnydd:

006 Cyfanswm y tir ledled y sir sydd â mwy nag un defnydd/defnyddiwr

Ha adeiledig presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfanswm ha
129.63	42.19	171.81

4.3.4 Un defnydd:

007 Cyfanswm y tir ledled y sir ag un defnydd/defnyddiwr

Ha adeiledig presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfanswm ha
90.44	20.18	110.62

4.3.5 Fe wnaeth yr arolwg hefyd ystyried pa un a oedd gan y safleoedd sydd â mwy nag un defnydd ar hyn o bryd y potensial ar gyfer defnyddiau eraill ac mae gan gyfran sylweddol o'r tir cyflogi sydd ar gael, 156.76 ha y potensial ar gyfer defnydd cyflogi amgen gan gynnwys 42.86 ha o dir heb ei ddatblygu.

008 Cyfanswm y tir ledled y sir â hyblygrwydd posibl o ran defnydd cyflogi o'r defnydd presennol

Ha adeiledig presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfanswm ha
113.9	42.86	156.76

4.4 Tir cyflogi a gyfyngir gan lifogydd

4.4.1 Aseswyd y safleoedd cyflogi ledled y sir am y perygl o lifogydd a nodir faint o dir a gyfyngir gan lifogydd isod:

009 Tir cyflogi a gyfyngir gan lifogydd

	Ha adeiledig presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfanswm ha
Cyfanswm C1	39.64	19.42	59.06
Cyfanswm C2	53.03	13.97	67
Cyfanswm perygl isel/dim perygl	128.22	28.73	156.95
Holl gyfansymiau	220.89	62.12	283.01

4.4.2 Fel y mae'r cyfansymiau yn dangos, nid oes cyfyngiadau llifogydd ar dros 55% o'r tir cyflogi.

4.5 Tir cyflogi fesul hierarchaeth aneddiadau

4.5.1 Ymchwiliodd yr arolwg i ba mor gynaliadwy yr oedd lleoliad y tir cyflogi, gan ddefnyddio dosbarthiadau aneddiadau'r CDLI fel canllaw. Mae'r canlyniadau yn dangos:

010 Tir Cyflogi fesul Hierarchaeth

Aneddiadau

	Ha adeiledig presennol	Ha heb eu datblygu	Cyfanswm ha
Mewn canolfannau gwasanaeth trefol/gwledig	145.27	36.52	181.79
Yn agos i ganolfan gwasanaeth trefol/gwledig	17.15	0	17.15
Anheddiad Cyswllt neu Leoliad Arall	1.93	22.01	23.94

4.5.2 Fel y mae'r tabl uchod yn dangos, mae'r rhan fwyaf o'r tir cyflogi a'r tir cyflogi sydd ar gael wedi'i lleoli mewn canolfannau gwasanaeth trefol neu wledig neu yn agos iddynt. Fel y mae'r map o safleoedd yr adolygiad Tir Cyflogi, a ddarparwyd yn gynharach, yn dangos, maent wedi eu cysylltu yn bennaf gan briffyrdd 'A', sy'n golygu eu bod wedi eu lleoli yn gynaliadwy yng nghydestun Ceredigion. Mae'r safleoedd hynny sydd wedi eu lleoli mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill yn dueddol o fod yn ddiwydiannau gwledig penodol megis melinau llifio a chontractwyr amaethyddol ac maent yn safleoedd un defnydd yn aml gydag ychydig iawn o ddisgwyliad y cânt eu haildefnyddio yn y dyfodol.

5. Ffactorau ansoddol sy'n effeithio ar yr holl dir cyflogi ledled y sir a arolygwyd

5.1.1 Yn unol â'r cyfarwyddyd yn Canllaw Ymarferol - Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd er mwyn Cefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol (2015) roedd y gwaith o arolygu'r safleoedd hefyd yn ystyried ffactorau ansoddol. Roedd hwn yn cynnwys ansawdd yr amgylchedd a chysylltiadau trafnidiaeth y safle ac a oedd gan y safle ddefnyddiau cyfagos cadarnhaol neu negyddol.

5.2 Ansawdd y safle

5.2.1 Diffiniwyd y safleoedd a ystyriwyd eu bod o ansawdd uchel fel a ganlyn:

5.2.2 Ansawdd y portffolio presennol, yr amgylchedd mewnol ac allanol*

3	Mae'r adeiladau a'r rhannau allanol o ansawdd a chyflwr rhesymol ac yn darparu ystod gyfartalog o ran math a maint adeiladau / digon o gyfleusterau parcio, cylchredeg a gwasanaethu / ansawdd yr amgylchedd o amgylch yn annhebygol o gyfyngu'n sylweddol ar apêl y safle i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr
4	Mae'r adeiladau a'r rhannau allanol o ansawdd a chyflwr da ac yn darparu ystod dda o ran math, maint a deiliadaeth adeiladau / darpariaeth dda o ran parcio, cylchredeg a gwasanaethu / ansawdd yr amgylchedd o amgylch yn debygol o fod yn ffactor cadarnhaol o ran denu defnyddwyr

5.2.3 Ac - Ansawdd y safle allanol ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yr amgylchedd

3	Ansawdd / natur yr amgylchedd o amgylch yn annhebygol o gyfyngu'n sylweddol ar ei apêl
4	Ansawdd / natur yr amgylchedd o amgylch yn ffactor cadarnhaol o ran denu defnyddwyr

011 Ha Cyflogaeth o Ansawdd Uchel

Adeiledig Presennol	Heb eu datblygu	Cyfanswm
143.28	39.82	183.09

5.2.4 Diffiniwyd y safleoedd a ystyriwyd eu bod o ansawdd isel fel a ganlyn:

Ansawdd y portffolio presennol, yr amgylchedd mewnol ac allanol:

1	Yr adeiladau a'r rhannau allanol o ansawdd a chyflwr gwael iawn / ychydig iawn o ddarpariaeth o barcio, cylchredeg a gwasanaethu / ansawdd yr amgylchedd o amgylch yn wael
2	Yr adeiladau a'r rhannau allanol o ansawdd a chyflwr cymedrol / ychydig o ddarpariaeth o barcio, cylchredeg a gwasanaethu / gallai ansawdd yr amgylchedd o amgylch gyfyngu ar apêl y safle i ddefnyddwyr penodol

Ansawdd y safle allanol ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yr amgylchedd:

1	Ansawdd yr amgylchedd o amgylch yn wael
2	Gallai ansawdd / natur yr amgylchedd o amgylch gyfyngu ar apêl y safle i ddefnyddwyr penodol

012 Ha Cyflogaeth o Ansawdd Isel

Adeiledig Presennol	Heb ei ddatblygu	Cyfanswm
13.90	5.84	19.74

5.2.5 Mae'n gadarnhaol i ddyfodol safleoedd cyflogi yng Ngheredigion bod yr arolwg wedi canfod bod 90% o'r safleoedd yn yr arolwg wedi cael sgôr o 3 neu 4 yn yr asesiad, hynny yw, sgorau o ansawdd uchel, fel y dangosir yn Nhablau 011 a 012 uchod. Mae'r safleoedd hynny a gafodd sgôr is yn bennaf yn safleoedd hŷn neu'n safleoedd â defnyddiau B2 neu unigryw a ddatblygwyd yn breifat dros amser mewn lleoliadau mwy gwledig.

5.3 Problemau amwynderau

5.3.1 Diffinnir y safleoedd yr ystyrir bod problemau amwynderau yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

Effeithiau Amwynderau (e.e. sŵn, llwch ac arogl)

1	Mae'r safle yn agored iawn i sŵn, llwch a/neu aroglau sy'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd yr amgylchedd uniongyrchol.
2	Mae'r safle yn agored i rywfaint o sŵn, llwch neu aroglau sy'n effeithio i raddau ar ansawdd yr amgylchedd ar adegau penodol o'r dydd

013 Ha Tir Cyflogi ag Effeithiau Amwynderau Mawr

Adeiledig Presennol	Heb ei ddatblygu	Cyfanswm
58.67	12.32	70.99

5.3.2 Diffinnir y safleoedd yr ystyrir nad oes problemau amwynderau yn effeithio arnynt fel a ganlyn:

Effeithiau Amwynderau (e.e. sŵn, llwch ac aroglau)

3	O bryd i'w gilydd, mae'n ymddangos bod y safle yn agored i rywfaint o sŵn, llwch neu aroglau sy'n gallu effeithio ar amwynderau'r amgylchedd uniongyrchol.
4	Nid yw'n ymddangos bod y safle'n agored i lefelau afresymol o sŵn, aroglau, llwch na ffactorau amwynderau eraill

014 Ha Tir Cyflogi ag Effeithiau Isel

Adeiledig Presennol	Heb eu datblygu	Cyfanswm
162.22	46.38	208.6

5.3.3 Unwaith eto, mae'n gadarnhaol ei bod yn ymddangos nad yw'r mwyafrif o'r tir cyflogi a arolygwyd ledled y sir yn cael ei effeithio gan broblemau amwynderau ac ystyrir nad yw problemau amwynderau yn effeithio ar 75% ohono.

5.4 Defnyddiau Cymdogol

5.4.1 Gall defnyddiau cymdogol safle effeithio ar ei apêl i fuddsoddwyr posibl felly ystyriwyd y defnyddiau cyfagos.

5.4.2 Diffiniwyd y rhai hynny yr ystyriwyd bod ganddynt 'gymdogion' gwael fel a ganlyn:

Defnyddiau Tir Cyfagos Gwael

1	Y safle wedi'i amgylchynu yn gyfan gwbl gan ddefnyddiau cymdogol 'gwael' a/neu ddefnyddiau sensitif.
2	Mae gan y safle rai defnyddiau cymdogol 'gwael' / neu ddefnyddiau sensitif yn gyfagos neu o fewn y safle.

015 Ha Tir Cyflogi Defnyddiau Cymdogol

Gwael

Adeiledig Presennol	Heb ei ddatblygu	Cyfanswm
33	9	42

5.4.3 Diffiniwyd y rhai hynny yr ystyriwyd bod ganddynt 'gymdogion' da fel a ganlyn:

Defnyddiau Tir Cyfagos Da

3	Ychydig neu ddim defnyddiau cymdogol 'gwael' sydd gan safle ond ceir rhai defnyddiau sensitif posibl gerllaw.
4	Lleolir y safle mewn ardal â defnyddiau eraill tebyg neu gefn gwlad agored.

016 Ha Tir Cyflogi Defnyddiau Cymdogol Da

Adeiledig Presennol	Heb eu datblygu	Cyfanswm
187.89	53.37	241.76

5.4.4 Mae'r canlyniadau'n dangos mai 15% yn unig o'r tir cyflogi sydd ar gael ledled y sir sydd â defnyddiau cymdogol a allai effeithio ar ei apêl.

5.5 Hygyrchedd

5.5.1 Mae pa mor agor a pha mor weladwy yw tir cyflogi i brif rwydweithiau trafndiaeth hefyd yn ystyriaeth bwysig i fusnesau sy'n dymuno adleoli i safleoedd o'r fath a chynaliadwyedd cyffredinol y datblygiad. Yn sgil hyn, ystyriodd yr arolygon o'r safleoedd pa mor agos i'r prif gysylltiadau trafndiaeth yr oedd y safleoedd a pha mor weladwy yr oeddynt o'r llwybrau hyn ac i ba raddau yr oeddynt wedi'u sgrinio oddi wrthynt.

5.5.2 Diffiniwyd y safleoedd hynny a oedd yn weladwy o brif lwybrau trafndiaeth fel a ganlyn:

Gwelededd Ffryntiad y Ffordd

3	Mae gan y safle rywffaint o welededd o Ffordd 'A' / gwelededd uchel o ffordd leol
4	Mae gan y safle ffryntiad gweladwy iawn o ffordd 'A'

017 Ha Tir Cyflogi Gweladwy o Ffordd 'A'

Adeiledig Presennol	Heb eu datblygu	Cyfanswm
184.26	45.44	229.7

5.5.3 Mae'r canlyniadau yn dangos bod oddeutu 80% o'r tir cyflogi a arolygwyd ledled y sir wedi'i leoli ar ffordd A neu yn weladwy iawn o ffordd o'r fath, mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac mae'n cynyddu cynaliadwyedd hirdymor y

safleoedd. Mae'r map o safleoedd cyflogi yn Atodiad 2 yn dangos yn glir leoliad y safleoedd cyflogi a'r modd y maent wedi'u clystyru ar hyd rhwydweithiau trafndiaeth mawr (yn ôl safonau Ceredigion).

- 5.5.4 Er mwyn sefydlu pa ganran o'r tir cyflogi a arolygwyd ledled y sir sydd wedi ei leoli'n gynaliadwy ac sydd â mynediad heb rwystr, defnyddiwyd y meini prawf canlynol i ystyried hynny. Diffiniwyd y safleoedd hynny sy'n hawdd eu cyrraedd o ffordd 'A', sydd â mynediad da o'r ffordd ac sydd â mynediad da at y safle fel a ganlyn:

Mynediad hawdd at y rhwydwaith priffyrdd strategol (h.y. ffordd 'A')

3	Wedi'i leoli llai na 1 cilomedr o brif lwybr ond nid yn union gyfagos
4	Wedi'i leoli yn union gyfagos i brif lwybr a'r llwybrau hyn yn hawdd eu cyrraedd

Ansawdd y mynediad at ffyrdd lleol

3	Y ffyrdd o amgylch yn gymharol lydan / ychydig o dagfeydd yn debygol ar gyfnodau prysur
4	Y ffyrdd o amgylch yn llydan / dim problemau amlwg o ran tagfeydd

Ansawdd y Mynediad i'r Safle

3	Yn debygol mai (cyfyngiadau gwelededd) prin sydd i fynediad y safle
4	Dim cyfyngiadau (gwelededd) amlwg o ran mynediad y safle

018 Ha Tir Cyflogi â Llwybrau Mynediad Da

Adeiledig Presennol	Heb eu datblygu	Cyfanswm
184.26	45.44	229.7

- 5.5.5 O gofio mai awdurdod gwledig yn bennaf â chyfyngiadau ar y rhwydweithiau trafndiaeth yw Ceredigion nid yw'n syndod nad oedd y rhan fwyaf o'n tir

cyflogi yn gallu cael sgôr uchel ar draws yr holl fesuriadau 'mynediad da'. O ystyried y rhwydwaith priffyrdd lleol a'r ffaith y ceir llawer o ffyrdd B nid yw'n syndod ychwaith bod llawer o'r tir cyflogi, er ei fod yn weladwy o ffordd A, hefyd â phroblemau o ran mynediad i'r safle gan gyfyngu ar rai mathau o gerbydau - er enghraifft, ceir cyfyngiadau i gerbydau cymalog yn ceisio mynd i safleoedd llai yn Bow Street. Mae'r ffaith bod chwarter cyfanswm ein tir cyflogi â sgôr uchel ar draws yr holl elfennau mynediad a arolygwyd yn ganlyniad cymharol gadarnhaol i'r sir.

Ystyriaeth

5.6 Cyfyngiadau ar y tir

- 5.6.1 Gall mathau eraill o gyfyngiadau megis dynodiadau natur ar y dirwedd, adeiladau rhestredig, y ddaear wedi'i halogi, effeithio ar ddichonoldeb tir cyflogi ac felly archwilir faint o dir cyflogi sydd heb gyfyngiadau isod:
- 5.6.2 Mae'r cyfyngiadau wedi'u categoreiddio a'u diffinio fel y nodir isod:
- 5.6.3 Cyfyngiadau amgylcheddol a gofynion datblygu annormal [e.e. tirwedd / dynodiadau natur ar y dirwedd, nodweddion treftadaeth (adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth), Gorchmynion Diogelu Coed a gofynion / materion / cyfyngiadau datblygu a nodwyd ac a restrir ym mholisiau'r Cynllun Lleol, papurau briffio datblygu safleoedd ac ati.] **

3	Mae'r safle yn annhebygol o fod wedi'i gyfyngu'n sylweddol gan gyfyngiadau amgylcheddol / gofynion datblygu annormal ac mae'n debygol mai dim ond ychydig o effaith a gaiff y materion hyn ar botensial datblygu.
4	Nid oes unrhyw ofynion amgylcheddol na gofynion datblygu annormal hysbys yn berthnasol i'r safle.

- 5.6.4 Nodweddion ffisegol y safle (e.e. maint, siâp a topograffi'r safle, peilonau, ffosydd draenio a seilwaith cyfleustodau dan ddaear sy'n hysbys ac sy'n hollti'r safle) **

3	gallai fod â rhai nodweddion ffisegol sy'n cyfyngu.
4	dim tystiolaeth amlwg o nodweddion ffisegol sy'n cyfyngu.

Cyflwr/halogiad y ddaear **

3	Yn debygol mai dim ond ychydig o botensial o halogiad sydd angen ychydig o waith paratoi ac adfer y ddaear.
4	Halogiad yn annhebygol, nid oes angen unrhyw waith o bwys i baratoi'r ddaear.

019 Ha Tir Cyflogi heb Gyfyngiadau

Adeiledig Presennol	Heb eu datblygu	Cyfanswm
183.85	30.04	213.89

- 5.6.5 O'r tir a aseswyd, mae'n amlwg bod 85% o'r tir cyflogi a arolygwyd ledled y sir ddim ond wedi'i gyfyngu'n rhannol neu ei fod heb gyfyngiadau, sy'n hanfodol i sicrhau dichonoldeb parhaus y safleoedd.

6. Canlyniadau ar Sail Ardal

6.1.1 Mae strategaeth aneddiadau y CDLI yn amlinellu Canolfannau Gwasanaeth Trefol Ceredigion, sef:

Aberystwyth

Aberteifi

Llanbedr Pont Steffan

Llandysul

Tregaron


Aberaeron

Adpar (oherwydd ei fod yn agos i Gastellnewydd Emlyn)

6.1.2 Mae Tir Cyflogi wedi'i nodi yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol fel a ganlyn:

020 Tir Cyflogi a nodwyd mewn canolfannau gwasanaeth trefol a'r tu allan iddynt

Canolfannau Gwasanaeth Trefol	Faint o Dir Cyflogi (Ha)
Aberystwyth	70.2
Aberteifi	21.26
Llanbedr Pont Steffan	27.31
Llandysul	11.05
Tregaron	5.49
Aberaeron	2.61
Adpar (oherwydd ei fod yn agos i Gastellnewydd Emlyn)	0.00
Canolfannau Gwasanaeth Gwledig	79.11
Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill	66.73



6.1.3 Mae dosbarthiad y tir cyflogi yn dangos bod y cyfle gorau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, a cheir y gyfran fwyaf yn Aberystwyth, sy'n bwysig i'r rhanbarth.

6.1.4 Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad tir cyflogi fesul ardal - Canolfan Wasanaeth Drefol / Canolfan Wasanaeth Wledig / Lleoliad Arall:

7. Aberystwyth

021 Canolfan Wasanaeth


Drefol Aberystwyth

Faint o dir sydd ar gael (Cyfanswm Ha)	70.2
Faint o dir fesul Dosbarth Defnydd (Cyfanswm Ha)	B1 (26.24); B1,B2, B8 (39.6); B2, B8 (2.34); B8 (1.23); Unigryw (0.79)
Faint o dir posibl	Tir a nodwyd yn sgil CS ac adolygiad o'r briff yn 2019 gan gynnwys GMW (nid yw ar gael hyd yn hyn)
Faint o dir heb ei ddatblygu	14.33
Tystiolaeth y ceir llawer o newid deiliaid neu ei fod yn wag yn barhaus	O'r unedau a oedd yn wag yn 2017, mae llai na 50% wedi bod yn wag am 4 mlynedd neu fwy yn ôl i 2011. Dros 60% yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol gan un cwmni yn unig
Faint o dir heb gyfyngiadau (yn ôl amryw o ffactorau)	Ar safleoedd yng nghanolfan wasanaeth drefol Aberystwyth mae 57.27 ha heb gyfyngiadau, 9 ha o'r rhain heb eu datblygu

7.1 Casgliadau ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth Trefol / SG

7.1.1 Yn gyffredinol, mae cyfradd datblygu safleoedd neilltuedig a lefel y newid deiliaid o fewn y lefelau disgwylidig, fel a gadarnhawyd gan yr Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae'r dull polisi caniatol i ddatblygiadau economaidd yn ymddangos yn ddigonol er mwyn darparu hyblygrwydd a galw 'lleol'. Ni fu unrhyw bwysau am brosiectau datblygu blaenllaw yn ystod cyfnod monitro CDLI1.

7.1.2 Map (PDF ar gael yn atodiad 3)



8. Aberteifi

022 Canolfan Wasanaeth Drefol


Aberteifi

Faint o dir sydd ar gael (Cyfanswm Ha)	21.26
Faint o dir fesul Dosbarth Defnydd (Cyfanswm Ha)	B1 (0.25); B1,B2,B8 (11.71); B1,B2,B8,Unigryw (9.3)
Faint o dir posibl	Tir a nodwyd yn sgil CS ac adolygiad o'r briff yn 2019 gan gynnwys GMW (nid yw ar gael hyd yn hyn)
Faint o dir heb ei ddatblygu	3.65
Tystiolaeth y ceir llawer o newid deiliaid neu ei fod yn wag yn barhaus	O'r unedau a oedd yn wag yn 2017, bu 54% yn wag am 4 blynedd neu fwy yn ôl i 2011. Dros 70% yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol gan un cwmni yn unig
Faint o dir heb gyfyngiadau (yn ôl amryw o ffactorau)	21.01

8.1 Casgliadau ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth Trefol / SG

8.1.1 Mae capasiti ar gael yn ardal Aberteifi o ran tir heb ei ddatblygu a chyfraddau safleoedd gwag mewn datblygiadau presennol. Mae hyn o fewn disgwyliadau CDLI1 fel yr awgrymir gan yr Adroddiadau Monitro Blyneddol.

8.1.2 Map (PDF ar gael yn atodiad 3)



9. Llanbedr Pont Steffan

023 Canolfan Wasanaeth Drefol


Llanbedr Pont Steffan

Faint o dir sydd ar gael (Cyfanswm Ha)	27.31
Faint o dir fesul Dosbarth Defnydd (Cyfanswm Ha)	B1 (26.24); B1,B2, B8 (39.6); B2, B8 (2.34); B8 (1.23); Unigryw (0.79)
Faint o dir posibl	Tir a nodwyd yn sgil CS ac adolygiad o'r briff yn 2019 gan gynnwys GMW (nid yw ar gael hyd yn hyn)
Faint o dir heb ei ddatblygu	9.96
Tystiolaeth y ceir llawer o newid deiliaid neu ei fod yn wag yn barhaus	O'r unedau gwag yn 2017, bu 66% yn wag am 6 blynedd yn ôl i 2011. 34% yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol gan fwy nag un cwmni
Faint o dir heb gyfyngiadau (yn ôl amryw o ffactorau)	8.39

9.1 Casgliadau ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth Trefol / SG

9.1.1 Mae gan Llanbedr Pont Steffan gapasiti ar gael o ran tir heb ei ddatblygu a chyfraddau safleoedd gwag mewn datblygiadau presennol. Mae hyn o fewn disgwyliadau CDLI1 fel yr awgrymir gan yr Adroddiadau Monitro Blyneddol.

9.1.2 Map (PDF ar gael yn atodiad 3)



10. Tregaron

024 Canolfan Wasanaeth Drefol


Tregaron

Faint o dir sydd ar gael (Cyfanswm Ha)	5.49
Faint o dir fesul Dosbarth Defnydd (Cyfanswm Ha)	A, B2, B8 (0.99); Unigryw (0.83)
Faint o dir posibl	Tir a nodwyd yn sgil CS ac adolygiad o'r briff yn 2019 gan gynnwys GMW (nid yw ar gael hyd yn hyn)
Faint o dir heb ei ddatblygu	3.67
Tystiolaeth y ceir llawer o newid deiliaid neu ei fod yn wag yn barhaus	Dim unedau'n wag yn 2017/nid yw'r dadansoddiad yn berthnasol
Faint o dir heb gyfyngiadau (yn ôl amryw o ffactorau)	1.82

10.1 Casgliadau ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth Trefol / SG

10.1.1 Mae digon o gapasiti ar gael yn Nhregaron o ran tir heb ei ddatblygu, a phwysau isel iawn o'r farchnad, o fath lleol fel arfer, yn unol â disgwyliadau CDLI1 fel yr awgrymir gan yr Adroddiadau Monitro Blynyddol. O ran ariannu, prosiect Cylch Caron yw'r datblygiad posibl mwyaf sylweddol yn Nhregaron ac mae ganddo ganiatâd cynllunio.

10.1.2 Map (PDF ar gael yn atodiad 3)



11. Llandysul

025 Canolfan Wasanaeth Drefol


Llandysul

Faint o dir sydd ar gael (Cyfanswm Ha)	11.05
Faint o dir fesul Dosbarth Defnydd (Cyfanswm Ha)	B1, B8 (4.83); D (4.62)
Faint o dir posibl	Tir a nodwyd yn sgil CS ac adolygiad o'r briff yn 2019 gan gynnwys GMW (nid yw ar gael hyd yn hyn)
Faint o dir heb ei ddatblygu	1.6
Tystiolaeth y ceir llawer o newid deiliaid neu ei fod yn wag yn barhaus	O'r unedau a oedd yn wag yn 2017, bu 100% yn wag am flwyddyn yn unig yn flaenorol yn ôl i 2011. Dros 100% yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol gan un cwmni yn unig
Faint o dir heb gyfyngiadau (yn ôl amryw o ffactorau)	10.11

11.1 Casgliadau ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth Trefol / SG

